OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 893 (Cy.113)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003

Wedi'u gwneud - -	*26 Mawrth 2003*
Yn dod i rym - -	*31 Mawrth 2003*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 118(1), 120(1) a (3), 121(1) a (9) a 138(7) ac (8) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**), ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enw, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Chynlluniau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 31 Mawrth 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

Dirymu

2. Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Addysg (Addysg Feithrin a Datblygu Blynyddoedd Cynnar) (Cymru) 1999(**3**).

Dehongli

3. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "addysg feithrin"("*nursery education*") yw addysg feithrin (o fewn ystyr "*nursery education*" yn adran 117 o'r Ddeddf) y mae awdurdod o dan ddyletswydd i sicrhau bod yna ddarpariaeth ddigonol ohoni ar gael yn rhinwedd adran 118 o'r Ddeddf a rheoliad 4 o'r Rheoliadau hyn;

(**1**) 1998(p.31). Diwygir adran 120(1) gan adran 150(5) o Ddeddf Addysg 2002. Amnewidiwyd adran 120(3) gan adran 150(3) o Ddeddf Addysg 2002. Diwygir Adran 121(1) gan Adrannau 150(4) (a) ac (5) a adran 215(2) o Ddeddf Addysg 2002 ac Atodlen 22, Rhan 3 iddi. Diwygir adran 121(9) gan adran 150(4)(i) a (5) o Ddeddf Addysg 2002. I gael ystyr "*prescribed*" a "*regulations*" *gweler* adran 142(1).

(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac adran 211 o Ddeddf Addysg 2002.

(**3**) O.S. 1999/1099.

ystyr "awdurdod" ("*authority*") yw awdurdod addysg lleol;

ystyr "y bartneriaeth" ("*the partnership*"), mewn perthynas ag awdurdod, yw'r bartneriaeth datblygu blynyddoedd cynnar a gofal plant a sefydlwyd gan yr awdurdod yn unol ag adran 119 o'r Ddeddf(**4**);

ystyr "y cynllun" ("*the plan*"), mewn perthynas ag awdurdod, yw'r cynllun datblygu blynyddoedd cynnar a gofal plant a baratowyd gan yr awdurdod yn unol ag adran 120 o'r Ddeddf(**5**);

ystyr "cynigion am addysg feithrin" ("*proposals for nursery education*") yw datganiad cynigion yr awrdurdod am gydymffurfio gyda'u dyletswydd o dan adran 118 o'r Ddeddf, y mae'n rhaid i'r awdurdod gynnwys yn eu cynllun yn unol ag adran 120(2)(a) o'r Ddeddf(**6**);

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

Dyletswydd i sicrhau addysg feithrin

4.—(1) At ddibenion adran 118(1)(b) o'r Ddeddf (oedran y plant y mae dyletswydd yr awdurdod i sicrhau darpariaeth ddigonol o ran addysg feithrin ar eu cyfer yn eu hardal yn gymwys iddynt) rhagnodir —

(a) yn achos plentyn nad yw ei bedwerydd pen-blwydd yn dod o fewn un o'r cyfnodau a bennir ym mharagraff (2) isod, oedran y plentyn ar ddechrau'r tymor cyntaf sy'n dechrau ar ôl pen-blwydd y plentyn yn bedair oed; neu

(b) yn achos plentyn y mae ei ben-blwydd yn bedair oed yn dod o fewn un o'r cyfnodau a bennir ym mharagraff (2) isod, oedran y plentyn ar ddechrau'r tymor yn dilyn y tymor y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw.

(2) Y cyfnodau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1) uchod, mewn unrhyw flwyddyn, yw—

(a) y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ebrill ac yn dod i ben pan fydd tymor yr haf y flwyddyn honno yn dechrau;

(b) y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi ac sy'n dod i ben pan fydd tymor yr hydref y flwyddyn honno yn dechrau; ac

(c) y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Ionawr ac sy'n dod i ben pan fydd tymor y gwanwyn y flwyddyn honno yn dechrau.

(3) At ddibenion paragraffau (1) a (2) o'r rheoliad hwn, ystyr "tymor" yw'r tymor sy'n cael ei gadw mewn perthynas â'r addysg sy'n cael ei darparu, neu sydd i'w darparu, neu sydd o dan ystyriaeth, ar gyfer y plentyn, ac mewn unrhyw flwyddyn, ystyr tymor y gwanwyn, tymor yr haf a thymor yr hydref, yn eu tro, yw'r tymor sy'n dechrau ym mis Ionawr, ym mis Ebrill ac ym mis Medi.

Paratoi a chyflwyno'r cynlluniau i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w cymeradwyo

5.—(1) Rhaid i'r cynllun cyntaf ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i mewn i rym gael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol i gael ei gymeradwyo o dan adran 121(1) o'r Ddeddf erbyn 1 Gorffennaf 2003.

(2) Rhaid i'r ail gynllun cael ei baratoi a'i gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol i'w gael ei gymeradwyo o dan adran 121(1) o'r Ddeddf erbyn 20 Hydref 2003.

(**4**) Fel y'i diwygiwyd gan adran 150(1) a (5) ac adran 215(2) o, a Rhan 3 o Atodlen 22 i, Ddeddf Addysg 2002.
(**5**) Fel y'i diwygiwyd gan adran 150(2), (3) a (5) ac adran 215(2) o, a Rhan 3 o Atodlen 22 i, Ddeddf Addysg 2002.
(**6**) Fel y'i diwygiwyd gan Adran 150(5) ac adran 215(2) o, a Rhan 3 o Atodlen 22 i, Ddeddf Addysg 2002.